# Dinasyddion moesegol, gwybodus:
## Ble aeth yr holl wenoliaid?

Ddarganfod pedair ffordd newydd o edrych ar fudo gan anifeiliaid. O dasg ymchwil i drafodaeth ar yr hinsawdd gyda ffocws ar lythrennedd, o ddarn o ysgrifennu llawn dychymyg i ddadl strwythuredig, fe ddowch chi o hyd i ddigon o bethau i wefreiddio a chyffroi eich disgyblion.



Credit: Alan Price / Gatehouse Studio

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Supported by players of People's Postcode Lottery
Awarded funds from Postcode Planet Trust

## **Dinasyddion Moesegol, Gwybodus**: Ble aeth yr holl wenoliaid?

I ddefnyddio'r adnodd hwn, bydd arnoch angen y canlynol:

- PDF o 'Meistri'r Awyr' o *Gwyllt!* (rhif 102; Haf 2022) – Dolenni o fewn y ddogfen
- Y ddogfen yma – mae crynodeb byr isod, gyda'r prif adnoddau a'r dolenni ar y tudalennau canlynol.

Dyma bedair ffordd ffres o archwilio mudo gan anifeiliaid:

**Cam 1: Ymchwilio i siwrnai beryglus mae rhywogaeth yn mynd arni i fudo.**

Efallai y byddwch yn penderfynu cadw at rai o rywogaethau mudo mwyaf unigryw Cymru - gweilch y pysgod, morloi cyffredin, morgathod o bob math, ystlumod - neu hyd yn oed ganolbwyntio ar rywogaeth sydd â statws cadwraeth mewn perygl. Am resymau penodol o ran pam mae anifeiliaid yn mudo, fe welwch chi lawer o wybodaeth am ffeiliau ffeithiau rhywogaethau yn yr adran 'Dysgu' ar ein gwefan ni - mae'n lle perffaith i gyfeirio myfyrwyr iddo wrth i'w siwrnai ddysgu ddechrau.

Fe allech chi ddechrau drwy gwblhau ffeil ffeithiau gan ddefnyddio'r templed a'r dolenni yn nes ymlaen yn yr adnodd hwn.

**Cam 2: Cyferbynnu'r gwahanol amgylcheddau y mae gwahanol rywogaethau o anifeiliaid yn eu galw'n gartref ar adegau penodol o'r flwyddyn.**

Ar A2, mapiau o'r byd wedi'u darlunio â llaw, gallai'r disgyblion blotio siwrnai rhywogaeth ac ychwanegu lluniau neu ffotograffau o dirnodau naturiol neu beryglon y byddai'r anifeiliaid yn eu pasio ar eu ffordd. Gallai hwn fod yn gyfle i ystyried sut mae'r Argyfwng Hinsawdd wedi effeithio ar amrywiaeth o amgylcheddau ar hyd llwybr mudo. Fel arddangosfa ddosbarth lawn, gallai grwpiau o ddisgyblion ddefnyddio edafedd neu wlân o liwiau gwahanol i gynrychioli eu rhywogaeth benodol, a gellid ychwanegu allwedd i gyflwyno'r wybodaeth yn gliriach.

Eto, mae mwy o syniadau a dolenni yn nes ymlaen yn yr adnodd hwn – gwnewch yn siŵr eich bod yn troi at y tudalennau canlynol.

**Cam 3: Gallai'r disgyblion ysgrifennu paragraff person cyntaf o safbwynt eu rhywogaeth.**

Gall y disgyblion weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau. Fel tasg grŵp, gallai pob disgybl adrodd pwynt penodol o siwrnai'r anifail. Cofiwch gytuno ar ffurf ar gyfer adrodd, fel person cyntaf (fi, ni, ein) a chytuno ar amser mewn grŵp (yr amser presennol neu'r amser gorffennol) i wneud yn siŵr y bydd y stori yn dilyn trefn dda. Unwaith y byddant wedi gorffen, gall y disgyblion ddarllen eu straeon fel un dilyniant, a gellir cysylltu eu hysgrifennu ag arddangosfa fudo, neu ei hongian yn rhywle hyd yn oed, ar arddangosfa ddosbarth fwy.

Mae templedi ar gyfer sut i strwythuro'r mudo, ac enghraifft gan ddisgybl i'w defnyddio fel ysbrydoliaeth, yn ddiweddarach yn yr adnodd hwn.

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

**Cam 4: Cynnal dadl a rhoi sgoriau.**

Trafodwch ym mha amgylchedd y gallai anifail aros ynddo'n barhaol pe na bai mudo bellach yn opsiwn i'r rhywogaeth. Efallai y byddwch yn penderfynu y gallai'r pwnc yma fod yn sail i ddadl ddiddorol, ac os felly, beth am sefydlu rhai rheolau euraidd ar gyfer cymryd rhan mewn dadl yn gyntaf.

Mae rhai argymhellion ar gyfer rheolau ac awgrym ar gyfer cynllun sgorio ar dudalennau olaf yr adnodd hwn.

Cofiwch ystyried rhannu'r hyn mae eich disgyblion yn ei ddysgu drwy anfon llun a rhai manylion am eich ysgol a'r gweithgareddau y gwnaeth eich disgyblion eu mwynhau fwyaf i chris.baker@northwaleswildlifetrust.org.uk

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST


# Cam 1: Ymchwilio i siwrnai beryglus mae rhywogaeth yn mynd arni i fudo.

**Ffeil ffeithiau am fudo**: rhostog gynffonfraith



Credit: Chris Gomersall/2020VISION

| | |
|---|---|
| **rhywogaeth** | rhostog gynffonfraith |
| **man gadael** | Dyfroedd Bas Kuskokwim, Alasga |
| **dyddiad gadael** | 13eg Hydref, 2022 |
| **pellter a deithir** | 13,560km |
| **hyd y siwrnai** | 11 diwrnod |
| **man cyrraedd** | Bae Anson, Tasmania |
| **dyddiad cyrraedd** | 24ain Hydref, 2022 |




Credit: Adrien Riegan

**Ffeil ffeithiau am fudo**:

| | | |
|---|---|---|
| **rhywogaeth** | | |

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

| | | |
|---|---|---|
| **man gadael** | | |
| **dyddiad gadael** | | |
| **pellter a deithir** | | |
| **hyd y siwrnai** | | |
| **man cyrraedd** | | |
| **dyddiad cyrraedd** | | |

Mwy o wybodaeth am:

Fflora a ffawna Gogledd Cymru gyda ffeil ffeithiau am bob rhywogaeth y gallech geisio ei darganfod: https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/wildlife-explorer

adar sy'n mudo drwy Ogledd Cymru: https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/days-out/seasonal-spectacles/spring-wildlife/bird-migration

adar rhydio a fydd yn cyrraedd yn fuan i 'aeafu' yn y DU: https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/days-out/seasonal-spectacles/spring-wildlife/bird-migration


Gall fod yn hawdd chwilio am adar yn mudo, gydag atebion ar gael ar unwaith i'ch disgyblion ar gyfer llawer o rywogaethau'r DU. Fodd bynnag, os byddai'n well gennych roi rhywogaethau penodol i'r disgyblion ganolbwyntio arnynt, efallai yr hoffech ddefnyddio graffeg gwybodaeth fel yr un yma i finiogi eu ffocws:

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST




Credit: BTO/Nigel Hawtin

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

## Cam 2: Cyferbynnu'r gwahanol amgylcheddau y mae gwahanol rywogaethau o anifeiliaid yn eu galw'n gartref ar adegau penodol o'r flwyddyn

Defnyddiwch yr adran cynefinoedd ar y wefan i'ch helpu i gwblhau cyferbynnu tiroedd magu eich rhywogaethau a ble maen nhw'n treulio'r gaeaf: https://www.wildlifewatch.org.uk/animal-habitats

| **rhywogaeth:** | | |
|---|---|---|
| | **man gadael** | **man cyrraedd** |
| **tymheredd** ar gyfartaledd (mewn °C) yn ystod y mis gadael / cyrraedd | | |
| **glawiad** ar gyfartaledd (mewn mm) yn ystod y mis gadael / cyrraedd | | |
| oriau dyddiol o **haul** ar yr amser gadael / cyrraedd | | |
| **cynefin** (corsydd, coetir, rhostir, dŵr croyw, mynyddoedd, glaswelltir) | | |
| llun o'r rhywogaeth yn ei **chynefin** | | |
| **deiet** / prif ffynonellau o fwyd | | |
| **HER:** oes gan eich rhywogaeth unrhyw **addasiadau** sy'n galluogi goroesiad yn y lleoliad yma? | | |

**Ffocws ar lythrennedd: defnyddio geirfa Haen 2**
Unwaith y bydd eich disgyblion wedi cwblhau eu hymchwil, gallech eu hannog i ysgrifennu brawddegau gan ddefnyddio cysylltteiriau i gysylltu eu pwyntiau:

| | | |
|---|---|---|
| yn yr haf yng Nghymru, gall gwenoliaid brofi rhwng 10 ac 14 o oriau o haul bob dydd | **yn debyg**<br>**yr un fath**<br>**yn gyfatebol**<br>**yn gymharol** | pan maen nhw'n cyrraedd De Affrica, bydd y gwenoliaid yn cael rhwng 10 a 12 awr o haul bob dydd |

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY
Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

| | | |
|---|---|---|
| y tymheredd blynyddol ar gyfartaledd yng Nghymru ym mis Medi yw 14°C | **ond mae er hynny yn gyferbyniol i'r gwrthwyneb** | yn haf De Affrica, mae'r tymheredd ar gyfartaledd 4°C yn gynhesach |

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY
Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

## Cam 3: Gallai'r disgyblion ysgrifennu paragraff person cyntaf o safbwynt eu rhywogaeth.

Anogwch eich disgyblion mewn grwpiau i strwythuro siwrnai un rhywogaeth yn rhannau ar wahân. Dylai fod digon o adrannau i ddisgyblion ysgrifennu un rhan yr un. Gallech chi annog y disgyblion i ymchwilio i beryglon rhan o'r siwrnai, neu effeithiau'r Argyfwng Hinsawdd, er mwyn iddyn nhw allu eu hymgorffori yn eu rhan hwy o'r stori.

| **Siwrnai gwennol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam 1:<br>Gadael Cymru** | **Cam 2:<br>Croesi anialwch y Sahara** | **Cam 3:<br>Croesi fforest law y Congo** | **Cam 4:<br>Cyrraedd De Affrica** |
| - mae gwenoliaid yn paru am oes felly rhaid iddynt aros am eu partner<br>- cywion yn gadael y nyth yn hwyr oherwydd sychder<br>- mae llai o bryfed yn golygu efallai na fydd y gwenoliaid yn y cyflwr gorau ar gyfer y siwrnai<br>- stormydd môr | - mae sychder yn gwneud i'r anialwch ymestyn bob blwyddyn<br>- mae llai o fwyd felly mae llawer o wenoliaid yn llwgu<br>- llai o lefydd i orffwys yn ddiogel ar y siwrnai | - hebogau, eryrod, barcutiaid<br>- teithio 200km bob dydd ac wedyn yn hynod flinedig<br>- fforest law yn crebachu<br>- llai o bryfed i'w bwyta<br>- trapiau dynol | - mae gwenoliaid yn paru am oes felly rhaid iddynt aros am eu partner<br>- mae safleoedd nythu yn diflannu wrth i drefi a dinasoedd ehangu<br>- mae gwenoliaid yn diriogaethol iawn felly mae defnyddio safle nythu aderyn arall yn anodd |

Dyma grid gwag i'ch disgyblion chi ei olygu:

| **Siwrnai _______________** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam 1:<br>Gadael** | **Cam 2:<br>Croesi** | **Cam 3:<br>Croesi** | **Cam 4:<br>Cyrraedd** |
| -<br>-<br>- | -<br>-<br>- | -<br>-<br>- | -<br>-<br>- |

Unwaith maen nhw'n barod i ddechrau, atgoffwch nhw eu bod i gyd yn ysgrifennu rhan o'r un stori, felly rhaid iddi fod yn gyson. Y ffordd orau o wneud hyn yw cytuno ar lais naratif ac amser yr ysgrifennu.

| **llais naratif** | **amser** | **ystyriaethau eraill** |
|---|---|---|
| person cyntaf:<br><br>fi ni ein | amser presennol:<br><br>**Mae'n** amser gadael<br><br>**Mae** fy adenydd yn chwifio hwyl fawr | Gallech chi gynnwys rhannau penodol o gorff yr anifail<br><br>Gallech chi gynnwys nodweddion y cynefin<br><br>Gallech chi gynnwys rhannau o'u deiet<br><br>Gallech chi ddisgrifio'r symudiadau maen nhw'n eu gwneud<br><br>Gallech chi geisio cadw un naws drwy gydol eich paragraff |

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

| | | |
|---|---|---|
| | | (gobeithiol, blin, trist) |

**Esiampl gan ddisgybl:** Gwennol. Rhan 1. Gadael Cymru.

Wrth i mi adael mae fy meddwl i’n dechrau rasio, a fyddaf yn cyrraedd yn saff? A fydd fy nghywion yn gallu cwblhau’r siwrnai? A fydd y blinder yn ormod iddyn nhw neu a fyddan nhw’n ymdopi? Os byddaf i’n syrthio oherwydd blinder, a fyddan nhw’n ymdopi? Dydi’r cywion erioed wedi hedfan y fath bellter mewn 40 diwrnod, ac mae 6000 o filltiroedd yn un marathon ar ôl marathon ar ôl marathon arall.

Wrth i fy mhlu ledu rydw i'n edrych y tu ôl i mi ac yn gweld y cywion yn dynwared curiad fy adenydd i dro ar ôl tro. Pan rydw i’n codi, rydw i'n fflapio fy adenydd ac yn teimlo gwynt oer sy'n gwneud sŵn chwyrn. Rydw i'n poeni y bydd y môr yn flin heddiw. Rydw i’n edrych ar draws yr awyr goch ac mae’r coed i gyd yn dechrau dirgrynu; mae ton ddu arall o wenoliaid yn plymio allan o'u dail oren. Rydyn ni tu ôl i’r haid yn barod – mae’r bodau dynol sydd yma’n galw grŵp ohonon ni yn ‘gyfoeth’ – welwn ni mo’u cartrefi nhw, eu gerddi, eu tonnau am naw mis arall bellach.

Rydw i'n llithro tuag at fy nheulu yn hedfan, ac mae fy nghywion yn fy nilyn i ar gyflymder cyson. Mae ein siwrnai ni wedi dechrau.

Arthur, 10 oed, Ysgol Pen-y-Bryn

Mae’r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

## Cam 4: Cynnal dadl a rhoi sgoriau.

### Taflen dadl wedi'i sgorio

| Positif | | | Negatif | |
|---|---|---|---|---|
| pwyntiau | ymddygiad | | pwyntiau | ymddygiad |
| 2 | Gwneud sylw perthnasol | | -2 | Torri ar draws |
| 2 | Defnyddio tystiolaeth i gefnogi safiad neu gyflwyno gwybodaeth ffeithiol | | -2 | Rheoli'r ddadl |
| 2 | Defnyddio stori i enghreifftio pwynt | | -3 | Gwneud ymosodiad personol |
| 1 | Defnyddio geirfa uchelgeisiol | | -2 | Diffyg canolbwyntio neu dynnu sylw pobl eraill |
| 1 | Gofyn cwestiwn esboniadol neu 'symud y drafodaeth yn ei blaen' | | -1 | Sylw amherthnasol |
| 1 | Adnabod croes-ddweud yn natganiad person arall | | -1 | Ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth |
| 1 | Tynnu person arall i mewn i'r drafodaeth | | -1 | Dim ymchwil wedi'i baratoi |

### Tabl gwag i lunio eich sgiliau / pwyntiau eich hun:

| Positif | | | Negatif | |
|---|---|---|---|---|
| pwyntiau | ymddygiad | | pwyntiau | ymddygiad |
| | | | | |

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Rheolau ar gyfer Dadl gyda Sgoriau**

**Cyn y ddadl -** Rhannu erthygl neu fideo fel **catalydd** i ddarparu **trosolwg** o'r pwnc.

Penderfynu ar **ddatganiad** y gall y disgyblion **gytuno** neu **anghytuno** ag ef.

Annog y disgyblion i **weithio mewn grwpiau** gydag eraill sy'n rhannu'r un farn

Rhoi amser i'r disgyblion **ymchwilio** i'w **safiad** yn y dosbarth neu gartref

Rhoi **tudalen o ffeithiau** / ystadegau / dyfyniadau i'r disgyblion ar y ddwy ochr

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

**Rhannu'r** daflen sgorio gyda'r disgyblion i annog **ymddygiad positif**

**Penderfynu** a fydd y disgyblion yn wynebu ei gilydd neu'r athro

**Dadl -** 1 **Aildrefnu'r seddau** fel bod y disgyblion mewn dau grŵp: O BLAID ac YN ERBYN

2 Mae un disgybl o'r ochr **O BLAID** y ddadl yn rhoi **datganiad agoriadol**

3 Y disgyblion o'r ochr **YN ERBYN** yn sefyll / codi dwylo am y cyfle i **ateb**

4 Y siaradwr **O BLAID** yn dewis y siaradwr **YN ERBYN** a fydd yn ateb ac yn 'ildio'

5 Y siaradwr **YN ERBYN** yn cyflwyno ei her

6 Mae'r siaradwr **O BLAID** yn cael cyfle i wneud ymateb pellach

7 **Ailadrodd** y broses nes bod y ddwy ochr wedi ystyried y rhan hon o'r ddadl

8 Yr athro yn gwahodd y disgybl o'r ochr **YN ERBYN** i gyflwyno pwynt newydd

9 Un myfyriwr **O BLAID** ac **YN ERBYN** yn rhoi datganiad cloi

10 Bydd y disgyblion yn **pleidleisio** ynghylch a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad gwreiddiol

11 Ychwanegir y pleidleisiau at y **sgoriau** ar daflen sgorio'r athro

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, i athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri y Côd Post.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY
Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST